

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI, CYFADRAN GWASANAETHAU  
CYMDEITHASOL**

**TÎM COMISIYNU**

**ADRODDIAD MONITRO CONTRACT**

<b><u>Enw/Cyfeiriad y Darparwr:</u></b>	Tŷ Casnewydd, Abertyswg
<b><u>Dyddiad yr ymweliad:</u></b>	Dydd Iau 8 Tachwedd, 2018, 10.00 a.m. – 3.00 p.m.
<b><u>Swyddog(ion) sy'n Ymweld:</u></b>	Andrea Crahart, Swyddog Monitro Contractau, CBS Caerffili
<b><u>Yn Bresennol:</u></b>	Claire Hobbs, Rheolwr Cofrestredig

**1. Cefndir**

- 1.1 Mae Tŷ Casnewydd yn eiddo mawr, 2-lawr, sydd yn gartref i bobl ag anabledd dysgu a/neu anabledd corfforol. Mae wedi'i lleoli mewn ardal breswyl dawel Abertyswg o fewn Cwm Rhymni.
- 1.2 Roedd 5 o breswylwyr yn byw yn y cartref ar adeg yr ymweliad (ariannwyd 3 o bobl gan Gyngor Bwrdeistref Caerffili a 2 o bobl drwy Gyngor Dinas Casnewydd).
- 1.3 Agorodd y cartref ym mis Mai 2017, a chynhaliwyd ymweliad monitro gan swyddog monitro Contractau y Tîm Comisiynu ym mis Rhagfyr 2017 i arsylwi ar y gwasanaeth. Bu angen tri cham unioni ac un cam datblygiadol o'r ymweliad hwn ac edrychwyd ar hyn yn ystod yr ymweliad.
- 1.4 Mae'r Rheolwr wedi'i chofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru (y rheoleiddiwr gweithlu).
- 1.5 Cynhaliodd yr Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ymweliad arolygu yn Ionawr 2018. Roedd y canfyddiadau o'r ymweliad hwn yn gadarnhaol gyda dim ond rhai argymhellion, a oedd yn cynnwys bod angen gofod allanol i bobl eu defnyddio; cwblhad cywir o ddogfennau diogelwch tân; storio diogel neu sicr o ran meddyginiaeth a diwygiad cywir dogfennau adolygu gofal.
- 1.6 Ni ddaeth unrhyw gwynion neu bryderon i law Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ynglŷn â diogelu yn y flwyddyn flaenorol.
- 1.7 Gan ddibynnu ar ganfyddiadau'r adroddiad, rhoddir camau gweithredu cywirol a datblygiadol i'r darparwr i'w cwblhau. Camau cywirol yw rhai y mae'n rhaid eu cwblhau (sy'n cael eu llywodraethu gan ddeddfwriaeth ac ati), a chamau datblygiadol yw'r rhai y bernir eu bod yn arfer da i'w cwblhau. Cwblhawyd Teclyn Monitro Contractau at ddibenion cynnal yr ymweliad monitro.

## **2. Argymhellion Blaenorol**

### **Camau Cywirol**

- 2.1 Dylid unioni rhai sillafiadau anghywir o enw'r preswylwyr o fewn holl ddogfennaeth yn dilyn yr adolygiad nesaf. Amserlen: o fewn 3 mis. **Gweithred wedi'i chwblhau.**
- 2.2 Y Cynllun Cyflawni Gwasanaeth i'w ddiweddarau i gynnwys cyfeiriad bod angen cefnogi preswlydd (SB) i fynychu apwyntiadau iechyd. Amserlen: o fewn 3 mis. **Gweithred wedi'i chwblhau.**
- 2.3 Gofyn am eirida ar gyfer aelod o staff yn unol ag arferion recriwtio. Amserlen: o fewn 1 mis. **Gweithred wedi'i chwblhau, er nad oedd yn bosib ei gweld.**

### **Camau Datblygiadol**

- 2.4 I wneud cynlluniau gwasanaeth ac asesiadau risg wedi'u canoli mwy ar yr unigolyn h.y. cyfeiriad at y person cyntaf wrth ddisgrifio person a'u hanghenion/dymuniadau/hoff bethau a chas bethau ac ati. **Gweithred wedi'i chwblhau.**

## **3. Yr Unigolyn Cyfrifol**

- 3.1 O fewn y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 mae yna ofyniad i ddarparwyr gofal i gofrestru eu gwasanaeth gyda'r Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae Tŷ Casnewydd wedi cofrestru'n llwyddiannus ac fel rhan o'r broses hon, cyflwynodd Ddatganiad Diben diwygiedig, dogfennau cysylltiedig eraill, a phenodi 'Unigolyn Cyfrifol'.
- 3.2 Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn gosod disgwyliadau ar 'Unigolyn Cyfrifol' y gwasanaeth i fod ag atebolrwydd am ansawdd a chydymffurfiaeth y gwasanaeth.
- 3.3 Rhan o ddyletswyddau'r Unigolyn Cyfrifol yw ymweld â'r gwasanaeth ar sail chwarterol er mwyn cael trosolwg ar y gwasanaeth a darparu adroddiad ysgrifenedig ar ei ansawdd a chydymffurfiaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi cynhyrchu adroddiad ar gyfer y chwarter rhwng mis Gorffennaf a Medi, 2018 sy'n cynnwys meysydd megis iechyd a diogelwch, archwiliad o ffeil defnyddiwr gwasanaeth, yr amgylchedd, staffio, ac arsylwadau o brofiad amser cinio.
- 3.4 Mae cynllun wrth gefn y cartref, os nad yw'r Rheolwr Gofrestredig a'r Unigolyn Cyfrifol ar gael, yw mai'r Uwch Ofalydd parhaol neu aelod o dîm rheoli Pride in Care fydd yn gyfrifol.
- 3.5 Gofynnwyd am Bolisiau a Gweithdrefnau'r asiantaeth sy'n cefnogi tîm y staff er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol, a bod trefniadau ar waith i adolygu'r rhain yn y dyfodol. Ni oeddynt wedi cael eu hystyried fel rhan o'r broses fonitro.

## **4. Y Rheolwr Gofrestredig**

- 4.1 Cadarnhaodd y Rheolwr ei bod hi'n rheoli gwasanaeth arall ar wahân i Dŷ Casnewydd yn y fwrdeistref. Mae'r Rheolwr yn gyfrifol am redeg cartref preswyl bach Rachel Kathryn sydd wedi'i leoli yn Argoed.

- 4.2 Cadarnhaodd y Rheolwr bod yr eiddo â Theledu Cylch Cyfyng yn weithredol (i gadw golwg) a ddefnyddir yn unig i gadw golwg ar y tu allan. Nid yw hyn yn gweithio ar hyn o bryd, fodd bynnag bydd yn cael ei ail-gysylltu maes o law.
- 4.3 O ran yr eiddo, cadarnhaodd y Rheolwr bod problemau wedi bod gyda'r lifft mewnol, fodd bynnag, mae hyn bellach wedi'i drwsio. Yn ogystal, pan ymwelodd lechyd yr Amgylchedd yn ystod y flwyddyn, dywedasant fod angen addasu tymheredd y dŵr, a chafodd hwn ei gywiro wedyn. Mae pobl yn gallu newid y tymheredd yn eu hystafelloedd gan fod y rheiddiaduron yn gallu cael eu rheoli'n unigol.
- 4.4 Cadarnhaodd y Rheolwr bod y cofnodion Rheoliad 60 (cofnodion digwyddiadau ynghylch gwasanaeth neu unigolion) yn cael eu hanfon at Arolygiaeth Gofal Cymru fel un o'r gofynion rheoleiddio.
- 4.5 Cadarnhaodd y Rheolwr y gwneir atgyfeiriadau i weithwyr iechyd proffesiynol (e.e. therapi galwedigaethol, meddyg teulu ac ati) mewn modd amserol, a chynigiwyd enghreifftiau lle mae hyn wedi digwydd. Roedd y Swyddog Monitro hefyd yn ymwybodol drwy archwilio dogfennau bod hyn yn digwydd yn rheolaidd.
- 4.6 Mae ceisiadau Diogelu rhag Colli Rhyddid i unigolion nad oes ganddynt alluedd i wneud eu penderfyniadau eu hunain wedi'u cyflwyno i'r tîm Diogelu rhag Colli Rhyddid i'w hasesu. Caiff y rhain eu gweithredu (asesiadau ac awdurdodiadau) gan y tîm Diogelu rhag Colli Rhyddid yn y dyfodol.
- 4.7 Roedd yn amlwg o'r ymweliad bod perthnasau yn cael eu croesawu yn Nhŷ Casnewydd, gan fod perthynas i ddefnyddiwr gwasanaeth yn treulio amser yn y cartref yn ystod yr ymweliad, ac roedd ffotograffau/cofnodion yn cadarnhau'r un fath ar gyfer eraill hefyd.
- 4.8 Mae cyfranogiad cymunedol yn cael eu hannog gan y cartref sy'n cyflogi gweithwyr gofal cymdeithasol i wneud hyn, yn ogystal â staff gofal yn ymgymryd â'r rôl hon.

## **5. Canfyddiadau o'r ymweliad**

### **5.1 Cynllunio Gwasanaeth**

- 5.1.1 Archwiliwyd un ffeil yn ystod yr ymweliad (DD).
- 5.1.2 Roedd y ffeil yn cynnwys asesiad cyn-derbyn a oedd yn darparu gwybodaeth gychwynnol er mwyn helpu i gynhyrchu dogfennau priodol eraill.
- 5.1.3 Roedd y Cynllun Cymorth Gofal ac Adolygiad Cynllun Gofal Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar gael yn y ffeil. Roedd gwybodaeth o'r dogfennau hyn wedi'u defnyddio i greu Cynllun Personol y Cartref (Cynllun Gwasanaeth). Enwyd hyn gan y Tŷ fel 'Fy nghanlyniadau lles a sut i'm cynorthwyo er mwyn cyflawni'r rhain' ac mae'n cynnwys meysydd megis diet/maethiad, fy symudedd, sut rwyf yn symud o amgylch y cartref gan ddefnyddio ffrâm gerdded ac ati. Ni allai'r person dan sylw lofnodi'r ddogfen hon, fodd bynnag, cofnodwyd bod y wybodaeth wedi'i darllen i'r person. Roedd pob aelod o staff wedi arwyddo'r Cynllun Personol.

- 5.1.4 Roedd y Rheolwr Gofrestredig yn ymwybodol bod adolygiadau o asesiadau risg/cynlluniau personol i fod cael eu cynnal ar bob 3 mis yn hytrach na phob 6 mis, yn unol â rheoliadau newydd Arolygiaeth Gofal Cymru. Dylai adolygiadau cofnodi unrhyw newidiadau yn anghenion y person mewn modd ystyrlon.
- 5.1.5 Roedd asesiad risg yn bresennol a oedd yn cynnwys gwybodaeth megis ennill pwysau, llithro/baglu/syrthio, cael mynediad at y gymuned ac ati.
- 5.1.6 Cwblhawyd cofnodion dyddiol a oedd yn adlewyrchu meysydd o fewn Cynllun Personol a chwblheir cofnodion 'pryder cleient' lle bo angen ac yr oedd y rhain yn dangos cofnodion da o ran y camau a gymerwyd.
- 5.1.7 Gwelwyd dogfen 'cofnodi cyflawniad' sy'n cyfleu tasg yr oedd y person wedi llwyddo i wneud eu hunain.

## **6. Staffio a Hyfforddiant**

- 6.1 I gychwyn recriwtiodd Tŷ Casnewydd 11 gofalydd i ddarparu gwasanaeth i breswylwyr, ac mae 9 allan o'r 11 unigolyn yn parhau i fod yn gyflogedig yn y cartref. Mae'r lleoliad felly â pharhad da o staff.
- 6.2 Roedd lefelau staffio yn ymddangos yn ddigonol yn ystod y dydd (2 ofalydd a'r rheolwr ar ddyletswydd). Mae gan y gwasanaeth sifft nos effro ar waith.
- 6.3 Cwmpesir unrhyw absenoldebau staff drwy'r tîm staff presennol yn ymgymryd ag oriau ychwanegol, neu drwy'r chwaer-gartref o fewn y fwrdeistref. Nid oes angen staff asiantaeth oherwydd y trefniadau hyn ar waith.
- 6.4 Mae staff yn ymgymryd â hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth ac E-ddysgu. Cynhelir hyfforddiant ystafell ddosbarth drwy hyfforddwr Pride in Care a thrwy Dîm Datblygu Gweithlu Caerffili a Blaenau Gwent.
- 6.5 Roedd matrices hyfforddiant y Cartref yn dangos bod presenoldeb da wedi'i gyflawni ar gyrsiau gorfodol, megis codi a chario, hylendid bwyd, diogelu, rheoli heintiau, cymorth cyntaf ac ymwybyddiaeth o feddyginiaeth. Mae hyfforddiant nad yw'n orfodol yn cynnwys cyrsiau megis iechyd a diogelwch/diogelwch tân, awtistiaeth, Diogelu rhag Colli Rhyddid, epilepsi a COSHH.
- 6.6 Cadarnhaodd y Rheolwr nad oedd unrhyw aelod o staff yn gweithio dros 40 awr yr wythnos, i raddau helaeth mae staff yn gweithio oriau rhan amser gyda'r uwch ofalydd yn gweithio oriau llawn amser.
- 6.7 Trafodwyd 'Y Cynnig Gweithredol – Mwy Na Geiriau' (deddf iaith Gymraeg newydd) gyda'r rheolwr, a gadarnhaodd nad oedd yn ofynnol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, argymhellodd y Swyddog Monitro Contractau i'r Rheolwr ddod yn gyfarwydd â gofynion y Ddeddf rhag ofn y bydd hyn yn ofynnol ar ddyddiad diweddarach.
- 6.8 Mae cynefino staff yn rhan bwysig iawn o'r broses penodi/cysgodi. Cadarnhaodd y Rheolwr bod y rhan fwyaf o'r staff wedi cyrraedd FfCCh mewn Gofal Cymdeithasol a byddent wedi derbyn hyfforddiant cynefino fel rhan o'r broses recriwtio.

## Ffeiliau'r staff

- 6.9 Archwiliwyd ffeiliau dau aelod o staff yn ystod yr ymweliad. Roedd ffeiliau'r ddau wedi'u mynegeo, gan ei wneud yn haws i ddod o hyd i wybodaeth sy'n ofynnol. Roedd ffeiliau yn cynnwys dau eirda ysgrifenedig, mae oedi wedi bod ar un ohonynt wrth aros am ganolwr i ymateb. O gofio hyn, cynghorwyd y dylid dogfennu unrhyw oedi/rhesymau ac ati fel bod y darllenydd yn deall y rhesymau dros hyn. Roedd y wybodaeth arall yn cynnwys ffotograff o'r aelod o staff, ffurflen gais heb unrhyw fylchau mewn cyflogaeth a nodwyd; gwybodaeth am wiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro Contractau ble mae gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal yn electronig (drwy'r gwasanaeth diweddar), y mae bellach yn ofynnol o fewn rheoliadau newydd Arolygiaeth Gofal Cymru i'w cynnal yn flynyddol. Roedd gwybodaeth bresennol arall yn cynnwys cofnodion cyfweiliad, Contract Cyflogaeth wedi'i llofnodi (gan gynnwys disgrifiad swydd) a thystysgrifau hyfforddiant.

## **7. Goruchwylio a Gwerthuso**

- 7.1 Mae gan Dŷ Casnewydd matrices goruchwyliaeth a gwerthusiad. O wirio 2 ffeil roedd yn amlwg bod sesiynau goruchwylio chwarterol rheolaidd wedi'u cynnal ac roedd arsylwadau ar arfer y person yn ffurfio rhan fawr o'r sesiynau hyn e.e. archwilio dogfennau, gwasanaeth ryngweithio defnyddiwr, gorchwylion tŷ ac unrhyw feysydd a nodwyd ar gyfer gwella/adborth.
- 7.2 Roedd yn amlwg bod aelod o staff wedi derbyn gwerthusiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fodd bynnag roedd person arall wedi'i benodi'n gymharol ddiweddar felly ni fyddai disgwyl un tan y flwyddyn nesaf.

## **8 Ymagwedd tuag at Ofal / Arsylwadau**

### Maeth

- 8.1 Mae un o'r preswylwyr yn llunio rhestr siopa'n rheolaidd sy'n cael ei ychwanegu ato gan bobl eraill sy'n byw yn y Cartref a gwneir y siopa gan y gofalyddion.
- 8.2 Ar hyn o bryd, mae gofalyddion yn arwain ar baratoi bwyd/gweini prydau bwyd ac ati. Er bod yna dystiolaeth fod pobl yn helpu gyda gweithgareddau, megis gwneud cacennau.
- 8.3 Os yw anghenion maethol pobl yn newid yna gwneir atgyfeiriadau priodol e.e. at y Tîm Iaith a Lleferydd, a/neu'r Dietegydd i gael cyngor/arweiniad.

### Gweithgareddau

- 8.4 Roedd yna eitemau i ysgogi pobl h.y. roedd pobl yn gwylio hoff ffilm ac mae un fenyw yn hoffi cael cylchgronau i ddarparu ysgogiadau iddi. Yn ogystal, oedd ymgysylltiad da rhwng gofalyddion a'r bobl sy'n derbyn gofal, ac roedd yn amlwg eu bod yn deall dewisiadau pobl.
- 8.5 Nid oes amserlen gweithgareddau go iawn yn bodoli oherwydd gwahanol anghenion a diddordebau'r preswylwyr. Fodd bynnag, mae llawer o dystiolaeth bod llawer o weithgareddau yn cael eu cynnal a chofnodir hoffterau unigolion o fewn eu Cynllun

Personol er mwyn i bobl gael eu cefnogi i gael mynediad at weithgareddau yn y gymuned ac yn y cartref ei hun.

- 8.6 Gwelwyd y llyfrau lloffion unigol sy'n dangos llawer o weithgareddau wedi'u cynnal e.e. teulu'n ymweld â'r cartref ar gyfer achlysuron arbennig, casglu mwya'r yn agos at y cartref ac ati. Trefnir gweithgareddau hyn gan y gofalyddion/gweithwyr cymorth.

#### Cymhorthion a Chyfarpar Symudedd

- 8.7 Ar hyn o bryd nid oes gan unrhyw un anghenion codi a chario, felly nid yw'r Cartref yn storio unrhyw gyfarpar arbenigol e.e. teclynnau codi, slingiau, er y defnyddir cadair olwyn trydan a llaw yn rheolaidd ac mae trefniadau mewn lle gael y rhain wedi eu trwsio neu eu gwasanaethu fel sy'n ofynnol.
- 8.8 Roedd cadeiriau olwyn wedi'u gosod gyda phlatiau traed er mwyn sicrhau bod y person yn gallu codi eu coesau er resymau diogelwch/cysur.
- 8.9 Mae lifft i drosglwyddo preswylwyr rhwng lloriau'r cartref sy'n cael ei wasanaethu gan gontractwr yn flynyddol.

#### Rheoli Arian y Preswlydd

- 8.10 Gwiriwyd cofnodion ariannol ar gyfer un person ac roedd yn amlwg pan fu trafodion eu bod wedi'u llofnodi gan hyd at 2 aelod o staff. Gwiriwyd cofnodion o dros gyfnod o 5 mis.
- 8.11 Mae derbyniadau wedi cael eu cadw ar gyfer pethau wedi'u prynu a labelu yn unol â'r daflen trafodion e.e. 1, 2, 3 ac ati.

### **9. Iechyd a Diogelwch**

#### Damweiniau/Digwyddiadau

- 9.1 Ni chofnodwyd unrhyw ddamweiniau ers i'r Cartref agor.

#### Diogelwch Tân

- 9.2 Cwblhawyd asesiad risg tân yn ystod 2018 lle y nodwyd nad oedd unrhyw faterion i'w codi. Cyhoeddwyd tystysgrif.
- 9.3 Mae gwiriadau wythnosol larwm tân wedi'u cynnal yn gyson ers i'r Cartref agor ym mis Mai 2017, yn ogystal â gwiriadau gweledol diffoddwr tân a gwiriadau goleuadau argyfwng.
- 9.4 Cynhaliwyd ymarferion tân yn rheolaidd, gyda 3 wedi eu cynnal ers i'r cartref agor.

### **10 Adroddiad Cwynion/Canmoliaeth**

- 10.1 Mae gan Dŷ Casnewydd ffeil cwynion a chanmoliaeth mewn lle. Nid oes unrhyw gwynion wedi'u derbyn hyd yma. Os oedd cwyn yn cael ei dderbyn, byddai'r Rheolwr yn gyfrifol am eu prosesu a'u harchwilio.

- 10.2 Caiff unigolion eu hysbysu sut i godi cwyn drwy eu sesiwn cynefino staff, a thrwy wneud defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd yn ymwybodol o'r weithdrefn.
- 10.3 Cafwyd canmoliaeth gan ddau weithiwr cymdeithasol. Dywedodd un gweithiwr cymdeithasol am faint oedd defnyddiwr gwasanaeth wedi gwella ers dod i fyw yn y cartref; gan gyfeirio at y cynnydd sylweddol a wnaed ac agwedd rhagweithiol y tîm staff. Nodwyd ei bod yn edrych ymlaen at weld faint o gynnydd y byddai'r person hwn wedi cyflawni ymhén blwyddyn arall. Cadarnhaodd adborth eraill pa mor wych yr oedd y Rheolwr wedi bod yn darparu lleoliad ar gyfer person heb bron dim rhybudd o gwbl.

## **11. Adborth Defnyddiwr Gwasanaeth a Rhanddeiliaid**

- 11.1 Mae yna ddisgwyliad gan fod y Cartref wedi bod ar agor ers mis Mai 2017 y cwblheir arolwg rhanddeiliaid er mwyn canfod barn rhanddeiliaid am y gwasanaeth. Hysbyswyd y Swyddog Monitro Contractau bod yr Unigolyn Cyfrifol ar hyn o bryd yn llunio canlyniadau'r gwasanaeth hwn ac felly byddai'n cael ei gyhoeddi maes o law.

## **12. Amgylchedd y Cartref**

- 12.1 Mae Tŷ Casnewydd yn dŷ ar wahân eang iawn sy'n elwa o'r manau cymunedol mawr a'r ystafelloedd gwely, sydd o fudd i bobl sy'n byw yn y cartref.
- 12.2 Roedd y rhannau o'r cartref a welwyd yn ystod yr ymweliad yn lân ac yn daclus ac wedi eu cadw'n dda. Nid oedd unrhyw ddreudod wedi cael eu nodi mewn unrhyw ardal.
- 12.3 Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u haddurno a'u dodrefnu i safon uchel iawn.
- 12.4 Mae'r Rheolwr a'r tîm staff wedi ychwanegu ystafell synhwyraidd at y llawr cyntaf ac fe'i defnyddir gan y preswylwyr fel 'man tawelu'.
- 12.5 Mae cloeon ar ddrysau'r ystafelloedd gwely ac ystafelloedd ymolchi yn ogystal â chypyrddau cloadwy ym mhob ystafell wely'r preswylwyr ar gyfer eiddo personol i gael eu storio.
- 12.6 Mae'r eiddo yn buddio o'r gofod tu allan, fodd bynnag ar hyn o bryd mae angen llawer o waith gwella i'w wneud yn ardal addas i'r preswylwyr ei defnyddio. Mae trefniadau wedi'u gwneud i alluogi pobl i ddefnyddio man llawr caled y tu ôl i'r eiddo gyda bwrdd a chadeiriau.
- 12.7 Mae'r gwasanaeth wedi elwa o garped newydd i'r cyntedd a'r grisiau ers yr ymweliad blaenorol.

## **13. Cwestiynau i'r Staff**

- 13.1 Roedd y gofalydd y siaradwyd â hi wedi cadarnhau ei bod yn gwybod ble i ddod o hyd i wybodaeth sy'n ymwneud â defnyddwyr gwasanaeth (Cynlluniau Personol/Asesiadau Risg a.y.b.) a hefyd yn cadarnhau bod unrhyw newidiadau i anghenion pobl yn cael eu cyfleu i staff uwch er mwyn i'r gwelliannau hynny cael eu gwneud.
- 13.2 Cadarnhaodd y gofalydd ei bod wedi dilyn holl hyfforddiant gorfodol a chyrsgiau ychwanegol megis awtistiaeth ac epilepsi.

- 13.3 Cadarnhawyd y cynhelir cyfarfodydd staff yn rheolaidd ac mae'r staff yn gallu awgrymu eitemau ar gyfer yr agenda, yn ôl yr angen.

#### **14. Cwestiynau i'r Preswylwyr**

- 14.1 Yn ystod yr ymweliad monitro roedd 4 preswlydd yn y cartref yn ystod y cyfnod hwn.
- 14.2 Er na ofynnwyd cwestiynau penodol o'r offeryn Monitro, cynhaliwyd rhai sgysiau byr gyda phobl.

#### **15. Camau Cywirol**

- 15.1 I ddarllen 'Y Cynnig Rhagweithiol – Mwy Na Geiriau' (Deddf yr Iaith Gymraeg) i ennill dealltwriaeth o'r disgwyliadau ar ddarparwyr gofal cymdeithasol, ac i weithredu yn y dyfodol os yw'n ofynnol. **Amserlen: o fewn 6 mis.** (*Rheoliad 24 y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol*)
- 15.2 Datgeliadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i'w gwirio'n flynyddol, lle cânt eu diweddarau drwy'r gwasanaeth diweddarau electronig. **Amserlen: Ar unwaith ac ar fynd.** (*Rheoliad 35 y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol*)
- 15.3 I ddogfennu pan fydd anawsterau yn cael eu profi wrth dderbyn geirdaon fel y gall archwiliad cael ei gadw o gyfathrebu ar gyfer y ffeil. **Amserlen: Ar unwaith ac ar fynd.** (*Rheoliad 34 y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol*)
- 15.4 Polisiau allweddol a gweithdrefnau i fod yn gyfoes, a dyddiadau adolygu yn cael eu cynllunio a'u gosod. **Amserlen: O fewn 1 mis** (*Rheoliad 6 y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol*). **Tystiolaeth i'w anfon at Swyddog Monitro Contractau o fewn yr amserlen.**

#### **Camau Datblygiadol**

- 15.5 Ni nodwyd dim.

#### **16. Casgliad**

- 16.1 Mae Tŷ Casnewydd yn adeilad eang sy'n galluogi pobl i fyw mewn cartref sy'n cynnig digon o le a phreifatrwydd a gellir lletya defnyddwyr cadair olwyn yn hawdd. Mae gan y Cartref awyrgylch hamddenol a chyfeillgar iawn ac mae wedi'i addurno a'i ddodrefnu i safon uchel.
- 16.2 Mae prosesau a systemau cadarn ar waith i sicrhau y caiff staff eu hyfforddi'n addas ac yn cael eu goruchwyllo ar sail barhaus, yn ogystal â systemau mewn lle ynghylch e.e. diogelwch tân, rheoli cronfeydd defnyddiwr gwasanaeth ac ati.
- 16.3 Nid oes unrhyw gŵyn wedi'i derbyn hyd yn hyn, er bod prosesau ar waith os daw rhai i law. Mae'r Rheolwr hefyd wedi derbyn canmoliaeth gadarnhaol iawn o weithwyr cymdeithasol sy'n ymweld.
- 16.4 Hoffai'r Swyddog Monitro Contractau gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'r Rheolwr, staff a'r bobl sy'n cael eu cefnogi yn Nhŷ Casnewydd am eu hamser a'u lletygarwch.



**Awdur:** Andrea Crahart  
**Teitl Swydd:** Swyddog Monitro Contractau  
**Dyddiad:** Tachwedd, 2018

**D.S.:** Bydd yr adroddiad hwn ar gael ar safle rhyngrwyd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd copiâu caled o'r adroddiad hefyd ar gael i breswylwyr a/neu eu teuluoedd os ydynt yn gofyn i'w gweld.